# PWYLLGOR Y TY

## HC(2)-09-05 (p.1)

### 20 Hydref 2005

## Adroddiad Blynyddol Drafft 2004-2005

### Diben

1. Cyfle i Bwyllgor y Ty ystyried yr Adroddiad Blynyddol drafft sy'n amgaeedig.

### Cefndir

2. Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol drafft (a geir yn yr atodiad) gan ddilyn y strwythur cyffredinol y cytunodd y Pwyllgor arno. Bwriedir i'r Adroddiad gwmpasu prif waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a chrynhoi gwaith a pherfformiad staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Felly, mae'n anorfod bod yr Adroddiad yn cyfeirio'n fyr at waith pob un o'r pwyllgorau eraill, gan fod cyfran helaeth o'r gwaith cymorth yn ymwneud â'r pwyllgorau.

### Materion

3. Mae'r Adroddiad drafft yn debyg i adroddiad y llynedd o ran ei ymddangosiad a'i gynnwys, a hynny er mwyn gallu cymharu'r dogfennau. Ceir gwybodaeth am lwfansau a chyflogau'r Aelodau yn y drafft, fel y cytunodd yr Aelodau. Dosbarthwyd y wybodaeth i'r Aelodau er mwyn iddynt gadarnhau bod y ffigurau yn gywir neu roi sylwadau arnynt.

4. O ran y ffigurau am bresenoldeb mewn Pwyllgorau (tudalen **), dylid nodi'r pwyntiau bwled sy'n egluro'r ffigurau. Rydym wedi ymgynghori â'r Aelodau ar y ffigurau hyn ac wedi addasu rhai ohonynt. Nododd yr Aelodau nad yw rhai Gweinidogion yn mynd i gyfarfodydd Pwyllgor pan fo'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth ar gyfer adroddiad y bydd disgwyl i'r Gweinidog ymateb iddo maes o law. Awgrymwyd y dylid nodi hynny yn yr Adroddiad. Os yw'r Pwyllgor yn cytuno, byddai modd cynnwys y wybodaeth hon yn y rhagarweiniad i'r ffigurau.

### Goblygiadau Ariannol

5. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol o baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'i gyhoeddi ar y Rhyngrwyd a/neu ar ffurf dogfen gyffredin.

## Materion Cydymffurfio

6. O dan Reol Sefydlog 18.12, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cynulliad.

## Argymhellion

7. Argymhellir:-

(i) Bod yr Aelodau yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol drafft ac yn cymeradwyo neu'n addasu'r cynnwys;

(ii) Bod y Pwyllgor yn cytuno i osod yr Adroddiad Blynyddol gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bo modd.

**Dianne Bevan**

**Dirprwy Glerc y Cynulliad**

**Hydref 2005**